# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 25 Medi 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion

(82)v3

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 15 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14:32

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Cefnogi Myfyrwyr Cymreig – wedi'i ohirio tan 2 Hydref

### 4. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ: Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol: dogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ar 20 Medi

Dechreuodd yr eitem am 14:47

### 5. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Canlyniadau TGAU Saesneg Iaith 2012

Dechreuodd yr eitem am 15:12

### 6. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Cyngor Sir Ynys Môn

Dechreuodd yr eitem am 15:49

### 7. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd: Cynllun llaeth – y wybodaeth ddiweddaraf ar gefnogaeth i'r diwydiant llaeth

Dechreuodd yr eitem am 16:25

### 8. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio

Dechreuodd yr eitem am 16:57

**NDM5012 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio, fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Mai 2012 sy'n ymwneud â diwygiadau i Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 9. Dadl ar Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Adroddiad gan y Grŵp Cynghori Annibynnol

Dechreuodd yr eitem am 17:00

**NDM5047 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Grŵp Cynghori Annibynnol, Tuag at Deddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i dreialu system achredu ar gyfer asiantau cynllunio.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a gweddill y gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella capasiti'r system gynllunio drwy ddatblygu un Gwasanaeth Cyngor a Hyfforddiant Cynllunio Cenedlaethol i gynorthwyo adrannau cynllunio lleol i hyfforddi a datblygu eu staff.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 12 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth yr oedi sylweddol gan Lywodraeth Cymru cyn cyflwyno ei Bil Cynllunio.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 23 | 0 | 33 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**NDM5047 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Grŵp Cynghori Annibynnol, Tuag at Deddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i dreialu system achredu ar gyfer asiantau cynllunio.

Yn gresynu wrth yr oedi sylweddol gan Lywodraeth Cymru cyn cyflwyno ei Bil Cynllunio.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **56** | **0** | **0** | **56** |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd y cyfnod pleidleisio am 17:43

Daeth y cyfarfod i ben am 17:45

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 26 Medi 2012**